

Gair gan y Pennaeth / Letter from the Headteacher

2

Annwyl Riant/Ofalwr

Yn gyntaf hoffwn ddioch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a hefyd am gydweithio'n agos gyda'r ysgol dros gyfnod arolwg ESTYN. Nid wyf yn cael trafod canlyniadau'r arolwg ar hyn o bryd ond bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan ESTYN www.estyn.gov.wales ar 5/5/17.

Mae'n braff medru cadarnhau bod y cynllun i adeiladu ysgol newydd wedi ei gymeradwyo ac y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Medi 2018. Edrychwn ymlaen felly i weld agor drysau'r adeilad newydd a'r ysgol wedi'i lleoli ar un campws erbyn 2020.

Ddechrau tymor yr haf edrychwn ymlaen at groesawu Miss Iona Davies i'r campws cynradd. Bydd Miss Davies yn cychwyn ar ei dyletswyddau gyda'r Dosbarth Derbyn, yn dilyn ei gwaeledd hi. Rydym yn ddiochgar iawn i Miss Mary Griffiths a Miss Mari Jones sydd wedi bod yn cyflenwi yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod salwch Miss Iona Davies a chyfnod mamolaeth Miss Mair Rees. Bydd Miss Mary Griffiths yn parhau i weithio'n llawn amser tan ddiwedd tymor yr haf tra bydd Miss Mari Jones yn gweithio'n rhan amser ar y cyd â Miss Iona Davies.

Edrychwn ymlaen hefyd i groesawu 7 o blant bach newydd i'r dosbarthiadau Meithrin/Derbyn. Bydd Elin, Lily a Connor yn cychwyn yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg; tra bydd Layla, Elinor, Coco ac Elinor yn cychwyn yn y dosbarth cyfrwng Saesneg. Dymunwn bob llwyddiant iddyn nhw ar eu gyrraedd yn yr ysgol.

Bu'n dymor prysur gyda nifer o weithgareddau allgyrsiol wedi'u darparu i'r plant gan gynnwys cyfle i gystadlu yn eisteddfodau'r Urdd. Braf iawn oedd gweld myfyrwraig Chweched Dosbarth, Steffanie Morris, yn hyfforddi'r grŵp dawnsio disco cynradd. Hoffwn gymryd y cyfle i ddymuno'n dda i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yn olaf hoffwn ddymuno'n dda i holl blant yr ysgol yn eu profion statudol a'u harholiadau allanol fydd yn cychwyn ym mis Mai. Cyngorhaf hwynt oll i wneud yn fawr o'r amser rhwng nawr a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial ac nad ydynt yn cael eu siomi ar ddiwrnod canlyniadau.

Gan ddymuno Pasg dedwych i chi,

yn gywir

Dafydd M B Jones

Pennaeth

Dear Parent/Carer

Firstly I would like to thank you for your support during the year and also for your cooperation during the ESTYN inspection. We are not allowed to reveal the findings of the inspection until it is published on 5/5/17 on the ESTYN website www.estyn.gov.wales.

I'm pleased to confirm that the plans to build a new school have been approved and building work is scheduled to start in September 2018. The school is expected to open on one campus in 2020.

We look forward to welcoming Miss Iona Davies to the primary campus at the start of the summer term. Miss Davies will be teaching the reception class following her long term illness. We are very grateful to Miss Mary Griffiths and Miss Mari Jones who have been covering in the Foundation Phase during Miss Davies's illness and Miss Mair Rees's maternity leave. Miss Mary Griffiths will continue to work full time until the end of term with Miss Mari Jones working part time in partnership with Miss Davies.

We are also looking forward to welcoming 7 new children to the nursery/reception classes. Elin, Lily and Connor will start in the Welsh medium stream, with Layla, Elinor, Coco and Elinor starting in the English stream. I would like to wish them every success at the start of their school career.

It's been a very busy term with many activities being provided for the children including opportunities to compete at the Urdd Eisteddfod. It was great to see Stephanie Morris, a sixth form student coaching the primary disco dancing group. I would like to take this opportunity to wish all the best to those competing in the National Eisteddfod in Bridgend in May.

Finally I would like to wish every success to all the children who are undertaking statutory tests and external exams in May. I encourage everyone to make the most of the time that they have between now and then, to revise thoroughly so that they reach their full potential and avoid disappointment come results day.

Wishing you a peaceful Easter,

yours faithfully

Dafydd M B Jones

Headteacher

